Eiddo/LlM/5841

# I'W OSOD DRWY DENDR – FAN ARLWYO

Tir ar Gei'r Gogledd ger Harbwr Pwllheli, LL53 5YR

Chwefror 2026



Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Dim ond mesuriadau bras a roddir yma. Dylai pob darpar drwyddedai fodloni ei hun ynghylch y mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

## CYFLWYNIAD

Gwahoddir cynigion tendr ar gyfer Trwydded i Feddiannu tir ar Gei'r Gogledd ger Harbwr Pwllheli, LL53 5YR.

## LLEOLIAD

Mae'r safle wedi'i leoli wrth loches a adnewyddwyd yn ddiweddar ar lwybr cerdded wrth Harbwr Pwllheli o fewn pellter cerdded i ganol tref Pwllheli a chyfleusterau parcio cyfleus. Gellir adnabod yr eiddo wedi ei amlinellu yn goch ar y cynllun sydd ynghlwm.

## DISGRIFIAD

Mae'r tir yn cynnwys oddeutu 28.25m² o ddecin pren y gellir ei ddefnyddio i barcio fan arlwyo yn ystod eu Horiau Gweithredu. Mae Cyngor Gwynedd yn agored i'r posibilrwydd o gynnig Trwydded i fwy nag un busnes weithredu ar y safle, yn ddibynnol ar natur y busnes, oriau gweithredu a maint y cerbydau.

Mae amgylchedd nodweddiadol forwrol Cei'r Gogledd, ynghyd â'i agosrwydd at ddefnyddiau hamdden a masnachol yn ei wneud yn safle deniadol ar gyfer uned arlwyo symudol sy'n bwriadu manteisio ar apêl glan y môr a'r economi ymwelwyr ym Mhwllheli.  Mae'r cei wedi ei gysylltu'n agos â Marina a glan môr Pwllheli, gan ddenu cymysgedd o drigolion lleol, perchnogion cychod, ymwelwyr a thwristiaid tymhorol drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r lleoliad yn weladwy gyda pobl yn mynd heibio yn gyson, yn enwedig yn ystod y tymor ymwelwyr a digwyddiadau lleol, gan ei wneud yn addas iawn i fasnachwyr bwyd a diod. Mae parcio ceir cyhoeddus gerllaw a mynediad cyfleus o ganol y dref yn gwella hygyrchedd i gwsmeriaid a gweithredwyr.

## TRWYDDED I FEDDIANNU

Mae'r eiddo ar gael ar Drwydded i Feddiannu am gyfnod o 3 mlynedd o'r 27ain o Fawrth, 2026. Bydd unrhyw gytundeb newydd neu estyniad i'w gytuno rhwng y ddau barti.

## FFI

Dylid cyflwyno cynigion tendro ar sail taliadau blynyddol (Taliad Blwyddyn 1, Taliad Blwyddyn 2, Taliad Blwyddyn 3, ac ati).

Bydd y Trwyddedai yn cael ei anfonebu ymlaen llaw bob chwarter.

Bydd y taliad chwarterol cyntaf yn daladwy ar ddyddiad cychwyn y drwydded.

## TRETH AR WERTH

**Ni** ddylai'r cynnig gynnwys Treth Ar Werth. Bydd y trwyddedai yn gyfrifol am dalu ac adennill unrhyw dreth y mae'r trwyddedai yn atebol amdano.

Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Dim ond mesuriadau bras a roddir yma. Dylai pob darpar drwyddedai fodloni ei hun ynghylch y mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

## DEFNYDD

Gweithredu cerbyd arlwyo a defnyddiau ategol yn unig. Dylai'r ymgeisydd fodloni ei hun y bydd ganddynt ganiatâd cynllunio angenrheidiol a gwneud eu hymholiadau cynllunio eu hunain i Uned Cynllunio Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu at cynllunio@gwynedd.llyw.cymru.

## GWASANAETHAU

Bydd cysylltiadau dŵr a thrydan ar gael I'r Trwyddedai ar y safle. Bydd cost hyn yn ad-daladwy i'r Trwyddedwr a fydd yn gyfrifol am godi anfonebau rheoliadd am ddefnydd y Trwyddedai o'r gwasanaethau.

## YSWIRIANT

Bydd y Trwyddedai yn gwbl gyfrifol am sicrhau fod ganddyn nhw'r polisïau yswiriant canlynol a darparu copïau i'r landlord:

- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gydag indemniad i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â hawliau trydydd parti am ddifrod neu golled achoswyd o ganlyniad i gamau gweithredu neu esgeulustod y trwyddedai gydag isafswm gwerth polisi o £10,000,000
- Yswiriant sy'n bodloni Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 neu unrhyw orchymyn statudol arall a wneir o dan y Ddeddf honno, unrhyw ddiwygiad neu ail-ddeddfiad ohoni.

## TRETHI

Y trwyddedai fydd yn gyfrifo am drethi annomestig. Dylid cyfeirio pob ymholiad trethi annomestig i Uned Trethi Annomestig Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu at trethiannomestig@gwynedd.llyw.cymru.

## COSTAU CYFREITHIOL

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu £345 tuag at gostau cyfreithiol Cyngor Gwynedd (yn ddibynnol ar gymhlethdod yr achos).

## POLISI IAITH

Rhaid i'r holl ddeunydd ysgrifenedig, gan gynnwys arwyddion, gael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg ar gost y trwyddedai.

## TELERAU ERAILL

Cyfeiriwch at y prif ben telerau yn y paced hysbysebu am y telerau fydd yn cael eu cynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus.
Dylai'r ymgeisydd fodloni eu hunain o'r goblygiadau ac ystyried ceisio am gyngor proffesiynol priodol.

## YMWELIAD

Argymhellir archwiliad blaenorol. Mae'r tir yn agored i'w archwilio ar risg yr ymgeisydd ei hun.

Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Dim ond mesuriadau bras a roddir yma. Dylai pob darpar drwyddedai fodloni ei hun ynghylch y mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

## CANLLAWIAU GWNEUD CAIS

Ni dderbynnir unrhyw dendrau oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno yn y modd cywir fel y manylir isod.

**Rhaid** i bob cais gynnwys y dogfennau canlynol:
- Ffurflen gais tendr wedi'i llenwi
- Cynllun busnes sylfaenol

**Rhaid** cyflwyno pob cais mewn amlen wedi ei selio gan ddefnyddio'r label cyfeiriad tendro priodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw geisiadau'n cael eu hagor cyn y dyddiad cau. Rhaid peidio â marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd i newid ei ymddangosiad. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu am unrhyw gost postio.

Mae'r ffurflen gais dendro a'r label cyfeiriad tendro priodol ar gael yn y paced neu ar gais gan Uned Stadau Cyngor Gwynedd.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12yh ar Ddydd Mercher yr 11eg o Fawrth, 2026**. Dylech anfon neges trwy e-bost i stadau@gwynedd.llyw.cymru i roi gwybod i ni eich bod wedi cyflwyno cais – dylech ond ein hysbysu eich bod wedi cyflwyno cais ac **ni ddylech** ddatguddio manylion eich cynnig.

## CYFLAWNIAD Y TENDR

Dylai pob tendrwr ymweld â'r safle, i'w archwilio cyn tendro, i fodloni eu hunain am yr holl amodau a'r cyfyngia dau lleol sy'n effeithio ar y contract.
Ni fydd unrhyw honiadau sy'n deillio o fethiant i wneud hyn yn cael eu derbyn.

## GWRTHODIR YMRWYMIAD


Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr, ac nid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i ofyn am unrhyw dreuliau neu gostau mae'r tendrwr yn caffael wrth baratoi'r tendr.

## YMHOLIADAU

Am ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Uned Stadau ar 01766 771 000 neu at stadau@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Dim ond mesuriadau bras a roddir yma. Dylai pob darpar drwyddedai fodloni ei hun ynghylch y mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

**CYNLLUN SAFLE**




Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Dim ond mesuriadau bras a roddir yma. Dylai pob darpar drwyddedai fodloni ei hun ynghylch y mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.